cta cymru wales
Cymdeithas Cludiant Cymunedol
Community Transport Association

Yn gweithredu newid cymdeithasol trwy arweinyddiaeth, dysgu a menter

E-fwletin aelodau Cymru CTA

**Nadolig Llawen a blwyddyn newydd dda i chi i gyd. Ho Ho Ho!**

**Rhagfyr 11—Mawrth 2012, Rhifyn 10**

**Yn y rhifyn hwn:**

**Rhifyn 10**


| | |
|---|---|
| Cyngor CTA y DU | 2 |
| Y Diweddaraf gan ABI am Yrwyr Gwirfoddol | 3 |
| Lansio Cymwysiadau Teithio | 3 |
| Y diweddaraf am Ogledd Cymru | 4 |
| Y diweddaraf am CTCFI | 5 |
| Cyllid y Natwest | 5 |
| Gwobrau Blynyddol 2011 | 6/8 |
| Newyddion Cyffredinol | 9 |
| Shop Mobility Sir Fynwy | 9 |
| Hyfforddiant CTA | 10 |
| Hyn a'r Llall | 10 |


## Cymeradwyo Cyllid Cymoedd y Gorllewin!

Mae cais cyllido cydweithredol y CTA ar ran 6 gweithredwr yn Ardal Adfywio Strategol Cymoedd y Gorllewin wedi'i gymeradwyo gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau. Bydd y prosiect yn ysgogi, datblygu, gwella ac ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau CC ar draws rhannau o Awdurdodau Lleol Sir Gâr, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr.

Yn bennaf, bydd y prosiect yn cyllido eitemau cyfalaf fel cerbydau hygyrch, cydgysylltu a meddalwedd monitro yn ogystal â gwella marchnata a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau presennol a'r gwasanaethau sy'n cael eu hehangu mewn ardaloedd perthnasol yn y cymoedd.

Cyfanswm gwerth y prosiect yw £370k, gyda £290k o hyn yn dod gan Lywodraeth Cymru. Hefyd, mae dau Gonsortiwm Cludiant Rhanbarthol, SWWITCH a SEWTA, wedi darparu arian cyfatebol.

Prif bwrpas y prosiect hwn yw datblygu gallu gweithredwyr CC sy'n cymryd rhan i wella mynediad i gymunedau yng Nghymoedd y Gorllewin, trwy ddarparu ystod well a mwy effeithlon o atebion cludiant fforddiadwy ar gyfer unigolion a grwpiau cymunedol sydd ag anghenion cludiant dynodedig nad ydynt yn cael eu bodloni ar hyn o bryd gan wasanaethau cludiant cyhoeddus prif ffrwd.

Meddai Betsan Caldwell cyd-Gyfarwyddwr CCC "Mae wedi cymryd cryn amser i'r prosiect gael ei roi at ei gilydd ond rydyn ni wrth ein boddau ein bod ni wedi llwyddo ac yn edrych ymlaen at weithredu'r prosiect dros y misoedd nesaf yma."

Mae'r gweithredwyr sy'n cymryd rhan yn cynnwys Menter Cwm Gwendraeth, CC Castell-nedd Port Talbot, Dansa, OTED, Cynlluniau Ceir Pontarddulais ac Ystradgynlais a byddant yn derbyn cyfanswm o 9 cerbyd newydd rhyngddynt.

Fodd bynnag, rydym wedi cael gwybod yn ddiweddar fod cais y CTA i Ardal Adfywio Strategol Blaenau'r Cymoedd a gyflwynwyd yn wreiddiol ym mis Mawrth 2010 ac wedyn ei ailgyflwyno ym mis Rhagfyr 2010, heb gael ei anfon i'r Bwrdd i'w gymeradwyo ac o ganlyniad, heb gael ei gynnwys yn y blaen-gyllid. Ar hyn o bryd, rydym yn mynd ar ôl hyn gydag uwch-swyddogion.

## Gyrwyr Gwirfoddol—Ymrwymiad Yswiriant Car

Etholwyd pwyllgor newydd CTA Cymru yng Nghyfarfod Blynyddol ein Haelodau a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Llandrindod ar 19 Hydref, gyda'r swyddogion a etholwyd yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgor yn Abercynon ar 23 Tachwedd.

Dyma aelodau eich pwyllgor am eleni: Richard Cope (Grass Routes Cyngor Sir Fynwy), Sue Reed (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot), Debbie Johnson (PACTO), Megan Rosser Davies (CC Torfaen), Sarah-Leyland Jones (PAVO), Dave Brown (Cludiant Cymunedol Llanwrtyd), Phill Taylor (Prosiect Ieuenctid a Chymuned Aberfan ac Ynysowen) a Ceri Rees (Cyngor Sir Benfro). Etholwyd Richard yn Gadeirydd a Sue a Debbie yn Is-gadeiryddion.

Diolchodd Richard Cope i Sarah Leyland Jones, y Cadeirydd sy'n sefyll i lawr, am y gwaith y mae hi wedi ei wneud gyda'r pwyllgor dros y blynyddoedd diwethaf gan ychwanegu "Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r pwyllgor newydd wrth symud CTA Cymru ymlaen ac mae'n fraint i mi gael fy ethol fel y Cadeirydd newydd. Gobeithio – gyda'n gilydd – y gallwn wella proffil CTA Cymru a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan ei aelodau a'i swyddogion. "

## Gweithredu cerbydau bychain o dan drwydded Adran 19 a chyfundrefn a chytundebau Rhannu Ceir.

Ar ôl ei chyflwyno ar 6 Ebrill 2009, newidiodd y Ddeddf Trafnidiaeth Leol, ymhlith pethau eraill, Drwyddedau Bws Bach Adran 19 i Drwyddedau Safonol Adran 19. Roedd angen y newid enw yma er mwyn caniatáu i drwyddedau gael eu defnyddio ar gerbydau gyda llai na naw sedd i deithwyr am y tro cyntaf. Fodd bynnag, yn wahanol i fysiau mini, dydyn nhw ddim yn gallu cael eu defnyddio ar sail tocynnau teithio ar wahân.

**C. Felly beth yw 'tocynnau teithio ar wahân' a pha gyfyngiadau sydd yn glwm wrthyn nhw?**

**A.** Mae'n rhaid i bob teithiwr brynu tocyn teithio ar wahân gan weithredwr y cerbyd. Fel arall, gellid ystyried y cerbyd fel un a huriwyd yn gyfan gwbl a fyddai'n dod ag ef i mewn i ddiffiniad gweithredu a deddfwriaeth hurio preifat. Ceir tocynnau teithio ar wahân ym mhob gwasanaeth CC o'r math 'teithiwr unigol' – fel Galw'r Gyrrwr – lle mae'r gweithredwr yn pennu pris teithio (ar lefel ddielw) y mae pob teithiwr unigol yn ei dalu wedyn. Yn fyr, oni bai bod pris teithio fesul teithiwr, ni fydd tocynnau teithio ar wahân yn bodoli.

**C. Felly sut mae tocynnau teithio ar wahân yn gymwys gyda chytundebau?**

**A.** Beth am edrych ar rai enghreifftiau. Mae grŵp CC yn cytuno i ddarparu cludiant ar gyfer clwb cinio am £40 gan ddefnyddio cerbyd bach o dan drwyddedau Adran 19. Mae 8 teithiwr ac mae pob teithiwr yn talu £5 ar wahân i drefnydd y clwb cinio sydd wedyn yn talu £40 i'r gweithredwr CC. Ai tocynnau teithio ar wahân yw hyn? Nage, achos bod y cerbyd cyfan wedi cael ei hurio'n unswydd i'r clwb cinio.

Enghraifft arall fyddai sefydliad CC yn cynnig am gytundeb Awdurdod Lleol i gludo 5 o blant i'r ysgol gan ddefnyddio cerbyd bach. Y pris a gytunwyd yw £50 y dydd na all, fel yr uchod, fodloni'r diffiniad o docynnau teithio ar wahân gan fod y cerbyd yn cael ei hurio yn gyfan gwbl. Mae'r sefydliad CC yn penderfynu anfonebu'r ALl yn ôl y teithiwr am £10 y dydd mewn ymgais i fodloni'r gofyniad am docynnau teithio ar wahân. Fodd bynnag, gwaetha'r modd, "nage" yw'r ateb o hyd. Yr ALl sy'n talu, mae'r cytundeb gyda nhw a dydy'r teithwyr ddim yn cyfrannu o gwbl at gost y teithio.

Yn y ddau senario uchod, y dewis arall fyddai defnyddio bws mini (9 i 16 o seddau teithwyr) lle nad yw'r rhagofyniad am docynnau teithio ar wahân yn gymwys. Gellir hurio bws mini naill ai'n gyfan gwbl neu ei weithredu ar gyfer tocynnau teithio ar wahân. Cofiwch, o dan gyfundrefn trwydded Adran 19, mae'n rhaid peidio â gweithredu unrhyw wasanaeth er mwyn gwneud elw. Mewn geiriau eraill, gyda thocynnau teithio ar wahân, mae'n rhaid gosod y pris ar lefel (wedi'i seilio ar ddisgwyliad rhesymol o ran faint o deithwyr sy'n debygol o fynd ar y daith) lle na ddisgwylir gwneud elw.

**C. Oes modd gweithredu cytundeb gyda cherbyd llai gan ddefnyddio deddfwriaeth 'rhannu ceir' yn lle hynny?**

**A.** Oes mewn egwyddor gan fod deddfwriaeth rhannu ceir ond yn gymwys i gerbydau gyda llai na naw sedd i deithwyr ond rhaid i'r arian tocynnau teithio a dderbynnir gan y gyrwyr fod yn gyfwerth â chostau gweithredu'r cerbyd ar y daith honno yn unig.

Er mwyn cydymffurfio ag Adran 1 (4) Deddf Cerbydau Teithwyr Cyhoeddus 1981 mae'n rhaid i chi sicrhau:

a) nad yw pris y tocyn teithio neu gyfanred y prisiau a delir o ran pob taith yn fwy na chyfanswm costau rhedeg y cerbyd am y daith honno a

b) bod y trefniadau ar gyfer talu'r tocynnau teithio hyn, gan y teithiwr neu'r teithwyr, wedi eu gwneud cyn i'r daith ddechrau.

Gyda gyrwyr gwirfoddol mae modd cyflawni hyn yn hawdd trwy ad-dalu'r gyrrwr yn unol â chanllawiau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi sydd, ar hyn o bryd, yn 45 ceiniog y filltir am y 10,000 milltir gyntaf ac ar ôl hynny mae'r gyfradd yn disgyn i 26 ceiniog. Er hynny, cofiwch pe bai mwy nag un teithiwr yn cael ei gludo, byddai angen i gyfanswm y pris teithio fod yn 45 ceiniog o hyd ar gyfer y ddau deithiwr, nid 45 ceiniog yr un, gan y byddai'r prisiau teithio gyda'i gilydd yn fwy na chostau gweithredu'r cerbyd. Gallai hyn ddirymu yswiriant y gyrrwr gan y câi ei ystyried fel pe bai'n gweithredu er elw ac y byddai goblygiadau o ran treth incwm i hyn yn ogystal â dod â nhw o fewn terfynau cyfundrefnau Trwyddedu Hurio Preifat / Tacsi.

Os yw'r cytundeb yn cael ei gyflwyno gyda cherbyd y sefydliad ei hun yn hytrach na cherbyd y gwirfoddolwr, gall y pris/tocyn teithio a godir ond gyfro costau gweithredu'r cerbyd ac ni all gynnwys costau eraill fel cyflogau gyrwyr neu orbenion swyddfa. Os caiff gorbenion ychwanegol eu cynnwys, byddwch yn gweithredu'n anghyfreithlon gan na fyddwch bellach o fewn terfynau deddfwriaeth rhannu ceir. Am y math yma o senario yn bennaf y lobïodd y CTA yn llwyddiannus er mwyn i gerbydau llai gael eu cynnwys o fewn y gyfundrefn Trwydded Adran 19 fel y byddai modd i gostau gweithredu cysylltiol, hyd at lefel ddi-elw, gael eu cynnwys wrth brisio tocynnau teithio/cytundeb.

Mae rhifyn mis Tachwedd o Gyfnodolyn y CTA yn canolbwyntio'n benodol ar Gynlluniau Ceir Cymunedol ac mae'n edrych yn agos ar enghreifftiau o bolisïau codi am docynnau teithio cynlluniau ceir gwahanol a'u goblygiadau cyfreithiol. Am fwy o wybodaeth am hyn neu faterion cyfreithiol eraill, cysylltwch â Thîm Cyngor y CTA ar 0845 130 6195 neu drwy e-bostio advice@ctauk.org

## Gyrwyr Gwirfoddol—Ymrwymiad Yswiriant Car

Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan werthfawr a hanfodol ar draws Cymru ym mhob sector. Ond os ydych chi'n weithiwr gwirfoddol, gallai eich ewyllys da gael effaith annisgwyl ar eich yswiriant car. Ymddengys nad yw'r rheolau a'r rheoliadau ynglŷn â gwaith gwirfoddol ac yswiriant car yn glir o gwbl.

Roedd llawer o gwmnïau yswirio ceir yn arfer mynnu bod modurwyr yn rhoi gwybod iddynt am unrhyw waith gwirfoddol wrth gymryd polisi gyda nhw. Yma roedd y prisiau ar gyfer gwirfoddolwyr yn aml wedi'u chwyddo gan fod rhai yswirwyr yn diffinio gyrru gwirfoddol fel 'milltiroedd busnes' yn hytrach na 'domestig, cymdeithasol a phleser'.

Fodd bynnag, ers mis Awst 2011, mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yswiriant wedi rhoi'r gorau i'r arfer yma ac wedi cydymffurfio ag ymrwymiad newydd Cymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI) sy'n addo i fodurwyr gwirfoddol na chodir premiymau ychwanegol arnynt. Mae'r ymrwymiad yn cynnwys 54 o yswirwyr, sef dros 85% o'r farchnad yswiriant car.

Mae'n bwysig cofio bod yr ymrwymiad hwn yn gymwys i geir preifat sydd wedi'u hyswirio ar bolisïau yswiriant car preifat yn unig, ac eithrio lle nodir fel arall yn glir. Cofiwch hefyd pan fyddwch yn datgan eich milltiroedd blynyddol wrth brynu yswiriant, dylech gynnwys eich gyrru gwirfoddol yn y ffigur yna.

Mae yswirwyr car yn cydnabod bod angen gwybodaeth glir a chywir ar ddeiliaid polisi sydd eisiau helpu eu cymunedau trwy yrru'n wirfoddol. Gallwch ddarganfod a yw eich darparwr yswiriant car yn cydymffurfio â'r ymrwymiad yma trwy fynd i wefan ABI yn www.abi.org.uk lle mae'r rhestr yn cael ei diweddaru'n rheolaidd a rhoddir gwybod am unrhyw newidiadau.

## CC yn serennu yng Nghymhwysiad Teithio newydd Traveline Cymru

Mae Traveline Cymru wedi lansio'r ychwanegiad diweddaraf i'w ddewis o wasanaethau symudol gan gyflwyno ei gymhwysiad ('app') ffôn android am ddim, yn dilyn llwyddiant y cymhwysiad iPhone a lansiwyd yn yr Eisteddfod yn Wrecsam ym mis Awst. (I'r rhai ohonoch sy'n cael eich herio'n dechnegol, mae 'app' yn cyfeirio'n syml at raglen feddalwedd rydych chi'n ei defnyddio ar-lein neu ar declynnau symudol!)

Bydd y cymhwysiad teithio dwyieithog, y cyntaf o'i fath i gael ei gynhyrchu yng Nghymru ac un o ychydig iawn o gymwysiadau dwyieithog Cymraeg sydd ar gael trwy itunes, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gludiant cyhoeddus i deithwyr wrth iddynt symud o gwmpas.

Bydd yn caniatáu i bobl gynllunio eu taith, dod o hyd i safleoedd a llwybrau bysiau gerllaw, gwasanaethau Cludiant Cymunedol ac ymateb i'r galw, lleoli safleoedd parcio a theithio, gweld rhybuddion teithio rheolaidd a chyrchu manylion cwmnïau bysiau a threnau.

Dadorchuddiwyd y cymhwysiad gan lysgennad Traveline Cymru a'r seren deledu, Iolo Williams a oedd ar gael yn yr Eisteddfod i roi awgrymiadau i bobl ynglŷn â lawrlwytho a defnyddio'r cymhwysiad.

Meddai Iolo: "Pan fyddwch chi allan ac yn symud o gwmpas, dyna pryd mae gwir angen gwybodaeth deithio wrth law felly mae'r cymhwysiad hwn yn syniad gwych. Gallwch ei lawrlwytho am ddim ac mae'n hawdd ei ddefnyddio, byddwn i'n sicr yn argymell pobl i'w lawrlwytho gan nad ydych byth yn gwybod pan all fod yn ddefnyddiol i chi. "

## Y diweddaraf am wiriadau'r CRB

Mae llywodraeth y DU yn ystyried codi tâl ar wirfoddolwyr am ddefnyddio'r system gwirio cofnodion troseddol (CR) gludadwy sydd i fod i ddod i rym yn 2013.

Yn ôl y Mesur Diogelu Rhyddidau sydd gerbron Senedd San Steffan ar hyn o bryd, byddai dau fath o wiriad CR: gwiriad un tro a gwiriad cludadwy a fyddai'n caniatáu i unigolyn weithio neu wirfoddoli am nifer o sefydliadau. Byddai'r gwiriad un tro'n aros yn rhad ac am ddim i wirfoddolwyr ond gall fod yn rhaid i wirfoddolwyr dalu ffi tanysgrifio flynyddol am y gwiriad cludadwy.

Mae'n ymddangos y byddai pob sefydliad yn dal i dalu, o dan y system newydd, am wiriadau ar staff a gyflogir, er nad yw maint y ffi wedi'i bennu eto. Bydd y llywodraeth yn penderfynu a fydd yn codi tâl ar wirfoddolwyr ymhen tua chwe mis pan yw'r Mesur i fod i ddod yn ddeddf gwlad. Os caiff ei basio ar ei ffurf bresennol, byddai rhif unigryw yn cael ei roi i bob person sydd i fod i gael gwiriad CR ac wedyn gallai'r cyflogwr ei roi ar wefan a fyddai'n dweud wrthynt a oedd unrhyw wybodaeth newydd wedi cael ei gosod ar gofnod y person ers i'r gwiriad gwreiddiol gael ei gynnal.

# Y Diweddaraf am Ogledd Cymru

**Bws Nos yn Dychwelyd gydag Anrheg Nadolig Gynnar**

Mae gwasanaeth bysiau pob-logaidd a nodedig ar gyfer pobl dros 50 oed sy'n ei chael hi'n anodd mynd allan gyda'r hwyr yn dychwelyd y mis nesaf. Mewn partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Galw'r Gyrrwr Sir Ddinbych, bydd y gwasanaeth bws mini ar gyfer y sawl sy'n byw yn y Rhyl a Phrestatyn yn dychwelyd ar ddydd Iau 8 Rhagfyr, mewn pryd i'r Nadolig. Bydd y Bws Nos yn rhedeg eto ar nos Iau a nos Wener. Mae'n rhoi cyfle i bobl hŷn fynd allan yn fwy trwy roi gweithgareddau'r hwyr o fewn cyrraedd iddynt.

Daeth y Bws Nos i ben yn gynharach eleni yn dilyn gostyngiad yn nifer y gyrwyr gwirfoddol a 'bydis'. Mae'r bartneriaeth newydd wedi goresgyn hyn gyda chymorth Galw'r Gyrrwr Sir Ddinbych a fydd yn rheoli'r bwcio a'r gyrwyr. Wrth sôn am ailgyflwyno'r gwasanaeth, meddai'r Aelod Cabinet Arweiniol am yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, y Cyng. Sharon Frobisher: "Mae hyn yn newyddion da iawn i bobl hŷn. Rydan ni'n gwybod bod defnyddwyr wedi gweld eisiau'r gwasanaeth yma'n fawr. Bellach mae gynnon ni ffordd newydd o reoli'r gweithrediad hwn a baswn i wrth fy modd yn clywed gan gyn wirfoddolwyr sy'n teimlo y gallan nhw helpu eto."

Dywedodd Cadeirydd Galw'r Gyrrwr Sir Ddinbych, Barbara Charsley: "Mae hyn yn nodi newid pwysig i ni yn Galw'r Gyrrwr wrth i ni chwilio am ffyrdd o ddatblygu tu hwnt i'n gwasanaethau craidd. Rŵan, bydd y Bws Nos yn agored i unrhyw un sy'n preswylio yn ardaloedd y Rhyl, Prestatyn, Diserth a Rhuddlan ac edrychwn ymlaen at helpu pobl i fynd allan yn fwy."

Nid oes angen bod yn aelod o Galw'r Gyrrwr i ddefnyddio'r Bws Nos a chodir tâl o £3 y teithiwr y noson. Archebir tocynnau ar sail y cyntaf i'r felin gaiff falu. Dylai unrhyw un sydd eisiau gwybodaeth bellach gan gynnwys y system ddiwygiedig o fwcio a gweithredu, ffonio Galw'r Gyrrwr ar 01745 344222. Bydd gwasanaeth y Bws Nos yn gweithredu fel peilot am gyfnod o chwe mis, hyd at ddiwedd mis Mai 2012 ac wedyn bydd y bartneriaeth yn ei adolygu.

**BWS NI, Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych**

Mae Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych wedi derbyn rhodd o £6,055.29 tuag at gostau rhedeg eu bws mini cymunedol newydd sbon – Bws Ni.

Penderfynodd cyfeillion Cysgod y Gaer sydd newydd ddiddymu eu pwyllgor roi 50% o'u hasedau i'r fenter cludiant cymunedol newydd. Rhoddwyd y 50% arall i gartref preswyl Cysgod y Gaer i dalu am gludiant i'r preswylwyr.

Dywedodd Siân Roberts o Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych fod y bartneriaeth yn ddiolchgar iawn am y rhodd hael. "Bydd y gronfa y gweithiodd Cyfeillion Cysgod y Gaer mor galed i'w chodi yn gymynrodd barhaol i'r gymuned" ychwanegodd.

Mae yna le yn y bws mini 16 sedd ar gyfer hyd at 4 cadair olwyn ar unrhyw adeg. Recriwtiwyd nifer o yrwyr gwirfoddol yn barod; fodd bynnag, mae angen gwirfoddolwyr o hyd. Gellir bwcio am y bws mini trwy Siân ac mae llawer o ddiddordeb yn barod gan grwpiau o ddefnyddwyr.

Caiff y cerbyd ei barcio yng Ngorsaf Heddlu Corwen pan na fydd yn cael ei ddefnyddio. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gyfrifol am wasanaethu a chynnal y cerbyd. Mae Bws Ni wedi bod yn ffodus hefyd i dderbyn cefnogaeth ariannol gan Ifor Williams Trailers Cyf. a Scottish Power Renewables tuag at gostau rhedeg am y 12 mis cyntaf. Am fwy o wybodaeth neu os ydych chi eisiau bwcio'r bws, ffoniwch 01490 413429. Siân Roberts, Cynorthwyydd Datblygu, Canolfan Byw'n Iach Corwen.

# Swyddog Datblygu Gogledd Cymru

Croeso i Lindsay Haveland, sydd newydd ymuno â ni fel y Swyddog Datblygu newydd ar gyfer Gogledd Cymru. Yn adnabyddus i lawer yng Ngogledd Cymru, roedd Lindsay'n gweithio'n gynt fel Uwch Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (DVSC) yn Rhuthun ac mae wedi bod yn ymwneud â CTA Cymru ers tipyn trwy ein Fforymau CC a pheth gwaith prosiect lleol.

Bydd Lindsay yn canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd i'r sector CC yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys datblygu cydweithio a chryfhau partneriaethau rhwng gwahanol randdeiliaid.

Mae Lindsay yn gweithio o swyddfa CTA Cymru yn Neuadd Morfa, Y Rhyl a gellir cysylltu â Lindsay ar 01745 356751/07918-748260 neu h.lindsay@ctauk.org.

# Enillwyr Gwobrau Blynyddol 2011

## Cyfraniad Eithriadol i CC: Richard Cope, Cyngor Sir Fynwy

Richard yw Rheolwr yr Uned Cludiant Teithwyr a chyfrannodd at sefydlu CC Grass Routes, gan ddefnyddio trwyddedau adran 22 mewn ffordd arloesol a chofrestru'r gwasanaeth yn hyblyg, gan arbed cryn dipyn i'r Awdurdod ar yr un pryd â darparu gwasanaeth gwell o lawer i ddefnyddwyr. Hefyd mae wedi helpu i ddechrau dau gynllun shop-mobility lleol a dau gynllun sector gwirfoddol gyda'r awdurdod a Grass Routes ar ddulliau hyblyg o gludiant.

Mae'r fflyd cludiant i'r ysgol fewnol nodedig a sefydlodd bellach yn gwasanaethu gwahanol grwpiau a sefydliadau cymunedol ac mae'n gweithio'n frwd gyda CTA Cymru a rhai o'n haelodau eraill ar drefniadau cludiant ar gyfer nifer o wersylloedd hyfforddi Paralympaidd cyn 2012 a fydd yn cael eu lleol yn Ne Cymru.

Ef yw Cadeirydd newydd CTA Cymru ac yn Gadeirydd is-grŵp Cludiant Cymunedol DEWT ac mae wedi gweithio gyda CTA i roi hwb i'r grant Gwella Cyfalaf CC yn yr ardal. Mae Richard bob amser yn awyddus i rannu ei frwdfrydedd a'i wybodaeth gydag eraill ac mae wedi derbyn llawer o ymweliadau astudio â Grass Routes yn ogystal â threfnu seminarau, cynghori eraill a gwneud cyflwyniad ar adran 22 yng nghynhadledd CTA Cymru yn 2010. Noddwyd y wobr hon gan TAITH.

## CC a Farchnatwyd Orau: CC Green-links

Mae Greenlinks, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2010, yn brosiect peilot yn y rhannau gwledig o Fro Morgannwg a ysbrydolwyd gan drigolion lleol, yr Awdurdod Lleol a phartneriaid eraill ac mae'n cael ei reoli gan Swyddog CC yr Awdurdod. Er mwyn cynorthwyo datblygu, mae'r Awdurdod Lleol wedi cynhyrchu brand gan ddefnyddio delwedd gefndir o gefn gwlad gwyrdd a thonnog yr ardal sy'n cael ei ddefnyddio mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae'r rhain yn cynnwys lifrai cerbydau, posteri, taflenni, crysau-T, deunydd papur, cardiau aelodaeth a'r wefan. O ganlyniad i'r ymgyrch farchnata yma, mae gan Green-links erbyn hyn tua 460 o aelodau a 43 o aelodau grŵp ac mae wedi gwneud tua 2000 o deithiau ers mis Ionawr eleni gydag un gyrrwr rhan amser sy'n cael ei dalu a 9 gwirfoddolwr. Noddwyd y wobr hon gan Mike Clarke Printers.

## Gwirfoddolwyr CC y Flwyddyn: Peter Scoble a Dilwyn Morgan

### Peter Scoble – Cludiant Gwirfoddol Sir Benfro (PVT)

Mae Peter yn yrrwr gwirfoddol ar gyfer nifer o sefydliadau yn yr ardal ac mae'n sicrhau ei fod ar gael mor aml ag sy'n bosibl. Yn ddiweddar, cynhaliodd PVT arbrawf Galw'r Gyrrwr 6 mis yn Ardal Cilgeti a'r Cylch yn Sir Benfro pan yrrodd Peter, yn ddi-dâl, bob dydd Gwener. Mae ei faich gwaith a'i frwdfrydedd yn esiampl i bawb sy'n gysylltiedig â PVT, ac mae'r grwpiau y mae'n gyrru iddyn nhw yn sôn yn aml am ei gyfeillgarwch a'i amynedd ynghyd â'i ofal gyda defnyddwyr cadair olwyn.

### Dilwyn Morgan – Dolen Teifi

Mae Dilwyn yn wirfoddolwr cydwybodol ac yn rhan bwysig o ddatblygiad a llwyddiant Dolen Teifi. Mae ei gyfraniadau lu yn cynnwys bod yn aelod ymroddedig o bwyllgor Dolen Teifi ac yn yrrwr cydwybodol sydd bob amser yn barod i roi o'i amser ac yn ymfalchïo gyda chyfrifoldeb am ei ofal o'r bws. Mae Dilwyn bob amser yn ystyried anghenion eraill ac yn beiriannydd wrth ei alwedigaeth – sydd yn handi dros ben os bydd y bws yn torri i lawr! Noddwyd y gwobrau hyn gan SEWTA.

# Enillwyr Gwobrau Blynyddol 2011

## Gweithredwr CC Gorau: Dansa

CC Cwm Dulais yn wreiddiol, mae DANSA Cyf. bellach yn gweithredu CC sydd yn wir integredig, gan gyflogi 14 o yrwyr amser llawn a thri'n rhan amser, gydag 21 o gerbydau'n amrywio o geir bychain a cherbydau MPV i Optare 23 sedd, tîm 'ystafell gefn' o 1 aelod o staff amser llawn a 4 yn rhan amser, yn ogystal â gyrwyr gwirfoddol a staff gweinyddol.

Mae DANSA yn cynnwys 5 cwm Castell-nedd Port Talbot, yn ogystal ag ardal Abertawe. Mae'r ddarpariaeth cludiant yn cynnwys gwasanaethau Adran 22 ag amserlen a llwybrau hyblyg sydd wedi'u cyllido gan y Cynllun Datblygu Gwledig, teithiau siopa wythnosol a gyllidir o dan Fenter Tocynnau Teithio Rhatach Trafnidiaeth Gymunedol, gwasanaethau adran 19 llogi gan grŵp pwrpasol, cynllun Ceir Cymunedol un pwrpas, cytundebau cludo o dan dendr a phrosiect cludo i'r gwaith a ariannwyd gan DAF. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Dansa wedi cludo dros 91,000 o deithwyr ac mae ganddo dros 2,100 o aelodau. Noddwyd y wobr hon gan SWWITCH.

## Consortiwm Cludiant Rhanbarthol Mwyaf Cefnogol: SEWTA

Mae SEWTA wedi cynnwys y CTA a gweithredwyr CC yn gyson yn ei Gynllun Cludiant Rhanbarthol trwy sefydlu gweithgor CC gyda phartneriaid Awdurdod Lleol a defnyddio hyn fel dull o ddatblygu a darparu cynllun grantiau cyfalaf ar gyfer y sector. Mae SEWTA wedi dosrannu bron i £300,000 dros y ddwy flynedd diwethaf i weithredwyr CC trwy broses o wneud ceisiadau er mwyn iddynt wella eu gwasanaethau trwy brynu cerbydau neu feddalwedd. Mae'r cydweithio rhwng SEWTA a'i bartneriaid wedi golygu bod modd defnyddio dull cydgysylltiedig i ddatrys y materion hynny mae llawer yn y sector cludiant yn eu hwynebu. Noddwyd y wobr hon gan Trac.

## Rownd Derfynol Gyrrwr MiDAS y Flwyddyn Cymru 2011

Yn dilyn rowndiau rhanbarthol yn gynharach eleni, cymerodd pum cystadleuydd ran yn y rownd derfynol a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod ar 19 Hydref. Aeth pob cystadleuydd i ffwrdd ar yr heolydd mewn asesiad gyrru 30 munud lle rhoddodd Mike Entwisle o Asiantaeth Hyfforddi Cludiant Powys nhw ar brawf. Cyhoeddwyd y canlyniadau gan Phil Stratton o Q'Straint yn y cinio gwobrwyo yn nes ymlaen y noson honno.

### Gyrrwr MiDAS y Flwyddyn 2011: Nigel Hewitt, CC Castell-Nedd Port Talbot

Mae Nigel yn gweithio i CC Castell-nedd Port Talbot ers 2 flynedd lle treuliodd flwyddyn fel gyrrwr gwirfoddol cyn symud i waith â chyflog. Cyfeirir yn aml at ei deithwyr fel "Ledis Nigel" a disgrifiodd ei bennaeth Claire Smith fe fel cymeriad byrlymus sydd yn gwneud llawer mwy na'r dyletswyddau mae'n cael eu talu amdanyn nhw. Crynodeb Nigel o'i swydd oedd "un o'r swyddi gorau dw i erioed wedi'i chael a'r peth gorau amdani yw'r bobl rwy'n cwrdd â nhw." Ychwanegodd "Roedd y gystadleuaeth yn ddifyr ac roedd yn wych cael ein cydnabod am beth rŷn ni'n ei wneud. Mae ennill wedi bod wrth fodd fy ledis hefyd!"

### Ail yng Nghystadleuaeth Gyrrwr MiDAS y Flwyddyn: Eddie Bunston, Cyngor Sir Benfro

Mae Eddie yn gweithio i Wasanaethau Cymdeithasol Sir Benfro ers 5 mlynedd a hynny yng Nghanolfan Gweithgaredd Cymdeithasol yr Angorfa yn Noc Penfro fel Gyrrwr Wrth Gefn. Mae Eddie yn mynd y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir ac yn ogystal â gyrru, mae'n cyflawni dyletswyddau eraill i ddefnyddwyr y ganolfan. Pan ofynnwyd iddo beth oedd uchafbwyntiau ei swydd, atebodd Eddie "Defnyddwyr y gwasanaeth, yn bendant! Rŷn ni'n cael llawer o hwyl a thynnu coes ac mae pawb mor gyfeillgar. Hefyd, mae gen i dîm cefnogol iawn ac rwy'n ddyledus iawn i'r gyrwyr amser llawn sydd wedi fy nghefnogi a'm hyfforddi dros y blynyddoedd". Teimlai Eddie fod y gystadleuaeth MiDAS yn offeryn defnyddiol er mwyn dysgu a gwella eich sgiliau a'ch troi'n yrrwr gwell byth.

Ychwanegodd Alice "Ar ôl siarad â'r ddau yrrwr, mae ond yn pwysleisio pwysigrwydd gwasanaethau CC yng Nghymru. Hefyd, llawer o ddiolch i'n noddwyr Q'Straint am sicrhau bod modd cynnal y digwyddiad yma unwaith yn rhagor".

## Bws Bro

Bydd gwasanaeth bws newydd a lansiwyd ar 28 Tachwedd yn gweld un o'r enghreifftiau cyntaf yng Ngogledd Cymru o weithredwr cludiant cymunedol yn darparu gwasanaeth rheolaidd.

Bydd y bws sy'n cael ei weithredu gan Gludiant Cymunedol Conwy a'i ariannu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn rhedeg gwasanaethau â chymhorthdal 3 diwrnod yr wythnos rhwng Cyffordd Llandudno, Llanrwst Betws-y-coed, Cerrigydrudion, Corwen a Dinbych.

Ers i Ddeddf Trafnidiaeth 2008 ddod i rym, mae gweithredwyr Cludiant Cymunedol wedi medru darparu ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol yn hytrach na grwpiau penodol yn unig a'r cynllun hwn gyda Chludiant Cymunedol Conwy yw un o'r rhai cyntaf o'i fath i'w weithredu yng Ngogledd Cymru.

Dywedodd Glyn Jones o Gludiant Cymunedol Conwy, "Nod Cludiant Cymunedol Conwy yw darparu cludiant hygyrch i bobl y mae defnyddio'r gwasanaethau lleol yn medru bod yn anodd iddyn nhw. Trwy ddarparu'r llwybr teithio cymhorthdal yma, rydym yn bodloni'r amcanion hynny ac yn darparu gwasanaeth i'r gymuned wledig."

Meddai'r Cyng. Goronwy Edwards, Aelod Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy dros Gymunedau "Mae'r sefydliadau sydd yn glwm wrth hyn wedi gweithio'n ofnadwy o galed i weld y cynllun hwn yn dwyn ffrwyth ac i ddarparu gwasanaeth i'r gymuned."

Mae'r cerbyd newydd, o'r enw 'Bws Bro', yn fws Bluebird ag 16 sedd gyda mynediad llawr isel.

Noddir y digwyddiad lansio gan gerbydau Bluebird. Noddir y Cerbyd gan Venue Cymru a Broceriaid Yswiriant Gott & Wynne.

## Shop-mobility—Cynllun Newydd yn Agor yn Nhrefynwy

O'r diwedd, mae cynllun Shopmobility ar waith yn Nhrefynwy ar ôl 4 blynedd o waith caled. Lansiwyd Mobility Monmouth yng Nghanolfan Gymunedol Bridges ar ddydd Gwener 30 Medi ar ôl i'r prosiect gael ei lunio'n wreiddiol gan Bill Thorne a David Hill yn 2007. Enillwyd cefnogaeth gan Gyngor Tref Trefynwy, Cyngor Sir Fynwy gan ymwneud hefyd â Vision Monmouthshire.

Meddai Bill Thorne "Dalion ni ati i frwydro ac yn y diwedd daethon ni o hyd i adeilad – ac yna, fe gwympodd i lawr! Gwnaethon ni gais am arian Loteri ond weithiodd hynny ddim chwaith. Roedden ni'n dechrau cael ein dadrithio ond yn dal yn frwd achos roedden ni'n gwybod y byddai'n beth da i Drefynwy. Yna'n ddirybudd daeth y lle yma (Bridges) – dydy'r lleoliad ddim yn ddelfrydol ond mae'n lle da."

Diolchodd Mr Thorne i aelodau Action 50+, Terry Christopher, Ray Bassett a Richard Cope am eu help, yn ogystal â Chymdeithas Tai Sir Fynwy a oedd wedi rhoi grant o £1,250.

Gall y sawl sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth gysylltu â'r cynllun ar 01600 715766, ac mae'r swyddfa ar agor o 10am-4pm. Hefyd, mae'r cynllun yn edrych am wirfoddolwyr a fyddai'n fodlon staffio'r swyddfa. Os oes diddordeb gennych yna cysylltwch â'r cynllun ar y rhif uchod.

Ychwanegodd Cliff Adney, swyddog datblygu Shop-mobility Cymru "Mae'n dda iawn gen i fod y gwaith caled a wnaed gan y tîm yn Nhrefynwy wedi esgor ar agor y cynllun eleni. Pob dymuniad da iddynt am y dyfodol ac rwy'n teimlo bod hwn yn ddatblygiad cadarnhaol i bobl anabl yn Nhrefynwy er mwyn iddynt allu cyrchu gwasanaethau yn eu cymuned yn well"

## Hwyl Fawr i Lindsay a Chroeso i Caroline…

Yn ddiweddar mae Lindsay wedi dechrau ei chyfnod mamolaeth gan fod y babi Adams-Jones i fod i gyrraedd y mis yma. Mae Phoebe'n edrych ymlaen at frawd neu chwaer. Yn y cyfamser, recriwtiwyd Caroline Southard i gyfro cyfnod mamolaeth Lindsay a dechreuodd gyda ni ar 24 Tachwedd. Am y tro, bydd Caroline yn cadw cyfeiriad ebost Lindsay felly os oes angen cysylltu â Caroline ffoniwch hi ar 01792 844290 neu ebostiwch lindsay@ctauk.org neu ctawales@ctauk.org.

Meddai Caroline "Symudais i Abertawe 6 blynedd yn ôl o Gaint i fod gyda fy ngŵr (mae'n dod o Abertawe). Mae bachgen bach gyda ni sy'n 16 mis oed. Mae busnes cartref bach gyda fi o'r enw 'Once Upon A Cupcake' – rwy'n gwneud pob math o deisennau ond rwy'n arbenigo mewn teisennau cwpan. Rwy'n gwneud llawer o ddigwyddiadau elusennol lle dw i'n rafflo teisennau cwpan enfawr a'r un mwyaf diweddar oedd Plant mewn Angen pan godais i £500."

Ychwanegodd "Rwy wastad wedi ymwneud â gwasanaeth i gwsmeriaid. Fy swydd fwyaf diweddar oedd cydlynydd cytundebau mewn cwmni o'r enw Timet sy'n cynhyrchu titaniwm ar gyfer y diwydiant awyrofod a oedd yn bleserus ac yn ddiddorol iawn. Roedd modd teithio o gwmpas y DU yn ymweld â chleientiaid fel rhan o'm rôl. Hefyd, rwyf wedi cael llawer o brofiad yn gweithio mewn adwerthu a mwynheais y rhyngweithio â chwsmeriaid yn fawr."

## Cysylltu â ni

Prif swyddfa:
Canolfan Gymunedol Forge Fach,
Heol Hebron,
Clydach
Abertawe SA6 5EJ

Gogledd Cymru: Morfa Hall,
Stryd yr Eglwys, Y Rhyl, Sir Ddinbych

Ffôn: 07192 844290
E-bost: cta_wales@ctauk.org
Gwefan: www.ctauk.org

A ydych chi wedi ymuno â'n grŵp Yahoo eto? Dim ond clic llygoden i ffwrdd ydyw. Gofynnwch i NI e-bostio gwahoddiad i ymuno atoch CHI.

**Digwyddiadau CTA**

**Beth sy ymlaen dros y Misoedd nesaf yma?**

Bysiau Mini a Cherbydau MPV Diogel a Chyfreithlon12 Ionawr

Cyflwyniad i Gludiant Cymunedol 31st Ionawr

Dangos gwerth CC—Archwilio Cymdeithasol 8 Chwefror

Rheoli Ariannol a Rheoli Cyllideb Gwybodus 14 Mawrth

**Os oes angen mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r rhain, cysylltwch â Caroline neu Alice ar 01792 844290.**

**Hefyd, gallwch fynd i'n gwefan www.ctauk.org**

## Hyn a'r Llall

### Llinell Gymorth Iechyd ar Waith am ddim

Mae'r Llinell Gymorth Iechyd ar Waith yn wasanaeth peilot newydd sy'n cynnig cymorth iechyd ar waith dros y ffôn. Mae pob galwad yn gyfrinachol, mae'r cymorth am ddim a gallwch alw unrhyw bryd.

Bydd y llinell ar agor 24 awr y dydd, gyda gweithwyr proffesiynol cymwys ar gael 9-5 ar ddyddiau'r wythnos. Y tu allan i'r oriau hyn bydd gwasanaeth galw'n ôl ar waith. Os na all ein hymgynghorwyr eich helpu'n uniongyrchol, byddan nhw'n eich rhoi mewn cysylltiad â rhywun a all wneud.

*Pa gymorth sydd ar gael?*

- Sgrinio ar gyfer arwyddion cynnar o faterion sy'n ymwneud ag iechyd
- Sut i ddelio â staff sy'n profi anhwylderau iechyd meddwl ac iechyd corfforol
- Help proffesiynol gyda staff sy'n methu â gweithio
- Rheoli absenoldeb oherwydd salwch a phresenoldeb
- Adsefydlu ac ymyrraeth feddygol
- Ffordd o fyw a lles i gynnal iechyd

Cysylltwch â Rhadffôn Llinell Gymorth Iechyd ar Waith Cymru ar: 0800 107 0900

Neu am fwy o wybodaeth ewch i: healthyworkingwales.com

### Local Giving.com

Mae Localgiving.com yn offeryn ar-lein hawdd ac effeithiol i elusennau lleol a grwpiau cymunedol godi arian, ymwybyddiaeth a chefnogaeth. Maen nhw'n ymrymuso cymunedau lleol trwy ddarparu adnoddau i elusennau a sefydliadau cymunedol bach fel y gallant fod yn fwy effeithiol a hunan gynaliadwy.

Sut gall Localgiving.com helpu eich elusen neu'ch sefydliad?

Mae Localgiving.com yn rhoi tudalennau gwe i chi ac rydych chi'n eu hysgrifennu ac yn eu diweddaru eich hunain, ynghyd â ffyrdd hawdd o gadw mewn cysylltiad â'ch cefnogwyr. Bydd hyn oll yn helpu cynyddu eich cynaliadwyedd trwy:

- Lleihau dibyniaeth ar grantiau yn wyneb mwy o angen yn y gymuned.
- Llai o grantiau a chyllid gan y llywodraeth.
- Sicrhau'r sylw mwyaf yn y farchnad rhoddion ar-lein
- Darparu ffynonellau newydd o ran cyllid a chefnogaeth
- Rhoi gwybod am eich angheni-on o ran gwirfoddoli
- Codi ymwybyddiaeth am y gwaith gwych sy'n cael ei wneud yn eich cymuned

I gofrestru eich elusen neu grŵp lleol gyda Localgiving, cliciwch ar localgiving.com i ddechrau'r broses. Mae'r tri mis cyntaf am ddim ac mae ffi blynyddol o £60 i fwynhau'r manteision.

### Allech chi gael gafael ar Gyllid CFAP?

Mae'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol (CFAP) yn gynllun grant cyfalaf Cymru gyfan a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n agored i sefydliadau cymunedol a gwirfoddol ac mae'n darparu cyllid ar gyfer darparu prosiectau cyfalaf sy'n helpu darparu cyfleusterau ac offer sy'n helpu o ran cyflawni gweithgareddau sy'n hybu adfywio cymunedau. Mae gweithredwyr CC wedi mynd at y cyllid yma yn y gorffennol, er mwyn prynu cerbydau'n bennaf.

Mewn rhai achosion, mae modd gwneud cais am hyd at £20k o gyllid. Am fanylion am y cyfleoedd sydd ar gael yn eich ardal chi, cysylltwch â'ch Gwasanaethau Gwirfoddol Sirol lleol sydd â manylion am ddyddiadau cylchoedd ceisiadau lleol.

*Os hoffech gynnwys erthygl yn rhifyn nesaf cylchlythyr CTA Cymru, yna e-bostiwch:*

***alice@ctauk.org***

***erbyn 15 Chwefror, 2012***

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government